Gwybodaeth i Ddarpar Lywodraethwyr Ysgolion

Education Achievement Service
for South East Wales
Gwasanaeth Cyflawni Addysg
i Dde Ddwyrain Cymru

Dod yn Llywodraethwr Ysgol

Mae gan bob ysgol gorff llywodraethu sy'n cynnwys aelodau o'r gymuned leol, rhieni, athrawon, staff a chynrychiolwyr o'r Awdurdod Lleol (ALl). Gall rhanddeiliaid ychwanegol gael eu cynrychioli hefyd ar gyfer rhai categorïau o ysgolion, e.e. mae cyrff llywodraethu ysgolion o natur grefyddol hefyd yn cynnwys llywodraethwyr a benodir gan yr esgobaeth.

Mae'r corff llywodraethu yn gweithio gyda'r Pennaeth, staff yr ysgol, yr ALl, y GCA, rhieni a, lle bo'n briodol, yr esgobaeth. Mae'n gorff corfforaethol ac nid oes gan unrhyw lywodraethwr unigol y pŵer i weithredu ar ei ben ei hun (ac eithrio'r cadeirydd mewn argyfwng). Fodd bynnag, mae pob llywodraethwr yn cael cyfle i ddefnyddio neu ddatblygu ei sgiliau ym maes cyllid, personél, gwaith pwyllgor a chyfathrebu.

> ***"Ni ellir tanbrisio rôl llywodraethwyr a swyddogaeth y corff llywodraethu o ran codi safonau yng Nghymru"***
>
> *Leighton Andrews, y Gweinidog Addysg a Dysgu Gydol Oes 2009 - 2013*

Sut mae Cyrff Llywodraethu yn gweithio?

Mae corff llywodraethu

- yn gweithio gyda'r Pennaeth i bennu cyfeiriad strategol yr ysgol
- yn gyfrifol am fonitro a gwerthuso perfformiad yr ysgol yn erbyn y targedau a osodir
- yn gwneud penderfyniadau ar y cyd fel tîm
- yn gorfod cyfarfod o leiaf unwaith y tymor yn ôl y gyfraith - bydd llawer yn cwrdd ddwywaith
- yn dilyn strwythur pwyllgor sy'n galluogi trafod materion yn fanwl cyn cyflwyno argymhellion i'r corff llywodraethu llawn, caiff rhai materion eu dirprwyo i bwyllgor hefyd

Rhan hanfodol o waith llywodraethwyr ysgolion yw rhoi cymorth a heriau effeithiol i Benaethiaid ac uwch arweinwyr. Mae corff llywodraethu effeithiol yn hanfodol i sicrhau bod ysgolion yn parhau i wasanaethu disgyblion yn dda gyda'r nod o godi safonau. I helpu llywodraethwyr newydd i gyflawni'r rôl hon, cyflwynwyd hyfforddiant gorfodol o dan **Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) 2013.** Mae Cymorth i Lywodraethwyr y GCA yn darparu'r hyfforddiant gorfodol canlynol i'r unigolyn am ddim:

- **Hyfforddiant cynefino i lywodraethwyr**
  Mae'r hyfforddiant cynefino i lywodraethwyr sydd newydd gael eu penodi neu eu hethol yn canolbwyntio ar eu rôl a'u cyfrifoldebau a bydd yn rhoi'r anogaeth a'r hyder i lywodraethwyr newydd allu chwarae rhan lawn a gweithredol ym mhenderfyniadau'r corff llywodraethu.
- **Deall data perfformiad ysgolion**
  Bydd yr hyfforddiant ar ddata perfformiad ysgolion yn helpu llywodraethwyr i ddeall beth mae'r data ysgol yn ei olygu i'w hysgol, sut mae eu hysgol yn cymharu ag eraill ac yn

nodi'r camau y mae angen eu cymryd i wella perfformiad. Mae dealltwriaeth o ddata ysgolion yn rhoi hyder i lywodraethwyr gymryd rhan mewn trafodaethau corff llywodraethu ar berfformiad yr ysgol ac i ofyn cwestiynau priodol a threiddgar.

Cyfrifoldebau Llywodraethwyr

Er mai Penaethiaid sy'n gyfrifol am reoli'r ysgol o ddydd i ddydd, byddant yn gweithredu polisïau a bennir gan y corff llywodraethu. Mae'r cyfrifoldebau'n cynnwys:

- Cytuno ar nodau a gwerthoedd yr ysgol
- Llunio ac adolygu Cynllun Datblygu'r Ysgol
- Mabwysiadu ac adolygu polisïau'r ysgol
- Penodi staff
- Sicrhau bod y Cwricwlwm Cenedlaethol yn cael ei addysgu
- Sicrhau bod anghenion disgyblion unigol yn cael eu diwallu, gan gynnwys disgyblion anghenion arbennig
- Sicrhau lles a diogelwch disgyblion
- Paratoi a dosbarthu'r Adroddiad Blynyddol i rieni
- Cytuno ar gyllideb yr ysgol a'i monitro.

Pa rinweddau sydd eu hangen arnoch i fod yn Llywodraethwr Ysgol?

- Awydd i wella cyrhaeddiad addysgol plant
- Amser rhydd i baratoi ar gyfer cyfarfodydd a mynd iddynt
- Parodrwydd i ddysgu a holi cwestiynau
- Ymrwymiad i fynd ar hyfforddiant
- Y gallu i weithio fel rhan o dîm a gwerthfawrogi barn a chyfraniad pobl eraill
- Y gallu i barchu cyfrinachedd

Mae gan y rhan fwyaf o gyrff llywodraethu amserlen o gyfarfodydd ar gyfer y flwyddyn gan gynnwys cyfarfodydd is-bwyllgorau. Efallai y gofynnir i chi fynd i gyfarfodydd heb eu trefnu ar fyr rybudd os oes angen penderfyniad ar frys, ond byddwch bob amser yn cael rhybudd o bob cyfarfod.

Mae gennych hawl i gael amser rhesymol o'r gwaith yn ddi-dâl ar gyfer eich dyletswyddau fel llywodraethwr ysgol. Mae rhai cyflogwyr yn caniatáu absenoldeb â thâl a dylech gadarnhau hynny cyn cael eich enwebu a'ch penodi.

Er mwyn cyflawni eich rôl fel llywodraethwr mae angen i chi ddysgu am eich ysgol. Gellir gwneud hyn mewn nifer o ffyrdd:

- Ymgyfarwyddo â data perfformiad yr ysgol
- Ymweld â'r ysgol, drwy drefnu ymlaen llaw, yn ystod amser sesiwn
- Mynd i ddigwyddiadau fel gwasanaethau, diwrnod mabolgampau, ffeiriau ac ati. Gall y rhain fod yn gyfle delfrydol i gwrdd â staff a gweld yr ysgol yn gweithio mewn ffordd llai ffurfiol
- Dysgu pa faterion sy'n effeithio ar yr ysgol ar hyn o bryd drwy siarad â llywodraethwyr eraill

Nid yw bod yn llywodraethwr yn golygu mynd i gyfarfod busnes nawr ac yn y man mewn ysgol wag! Wedi dweud hynny, mae cyfarfodydd busnes, wrth gwrs, yn rhan hanfodol o'r gwaith o

lywodraethu ysgolion. Byddwch yn trafod cyllidebau, materion staffio, polisïau ysgol, darparu gwasanaethau, iechyd a diogelwch, ac ati. Byddwch hefyd yn cael adroddiadau i ymgynghori arnynt gan yr ALl a'r GCA. Fel arfer, byddwch yn cael y dogfennau ymlaen llaw er mwyn rhoi amser i chi baratoi unrhyw gwestiynau a allai fod gennych a chyfrannu at drafodaeth.

Nid oes angen i'r syniad o wneud penderfyniadau pwysig fod yn frawychus. Mae cyngor proffesiynol ar gael bob amser gan y Pennaeth ac, os yw'n briodol, bydd swyddogion yr ALl a'r GCA hefyd yn mynd i gyfarfodydd i drafod materion penodol. Mae'r rhan fwyaf o gyfarfodydd cyrff llywodraethu ysgolion yn cael eu clercio gan y GCA.

Os ydych chi'n credu bod gennych rywbeth i'w gynnig i'ch ysgol leol – naill ai arbenigedd proffesiynol neu ddiddordeb mewn addysg - efallai y byddwch yn dymuno bod yn Llywodraethwr Ysgol dan un o'r categorïau canlynol:
Rhieni/athrawon/staff cymorth Bydd y Pennaeth yn rhoi gwybod i'r holl rieni a staff pan fydd swyddi gwag perthnasol yn codi. Gofynnir am enwebiadau ac, os bydd angen, cynhelir etholiad.
Cymuned Dylech gysylltu â'r Pennaeth neu wasanaeth Cymorth i Lywodraethwyr y GCA i fynegi diddordeb.
ALl/Cyngor Cymuned/Sylfaen Bydd y penodiadau hyn yn cael eu gwneud gan y cyngor neu'r corff eglwysig perthnasol.

Mae rôl llywodraethwr ysgol yn heriol ond yn rhoi llawer o foddhad ac mae'n ffordd dda o roi rhywbeth yn ôl i'ch cymuned leol.

Gwasanaeth Cymorth a Datblygu Llywodraethwyr

Yma i helpu

Swyddfa Tredomen 01443 863155

E-bost: Governor.Support@sewaleseas.org.uk